# Ysgolion yr 21ain Ganrif
# Dogfen Ymgynghori 2021

## DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

## DARPARIAETH IECHYD EMOSIYNOL A LLESIANT I DDYSGWYR 11 - 19 OED

**13 RHAGFYR 2021 – 31 IONAWR 2022**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 er mwyn trefnu hyn

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

# Tabl Cynnwys


**Cyflwyniad**
- Llyfryn am beth yw hwn?
- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

**Ymgynghoriad**
- Â phwy ydym yn ymgynghori?
- Barn plant ar y cynigion arfaethedig
- Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
- Mae eich barn yn bwysig i ni

**Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon**
**Cefndir**
**Digonolrwydd yn y Sector Arbennig**
**Dosbarthiad daearyddol Darpariaeth Arbenigol**
**Darpariaeth Iechyd Emosiynol a Llesiant Oed Uwchradd (11 – 19)**
- Y ddarpariaeth bresennol
- Galw am leoedd
- Y Galw a Ragwelir am Leoedd Iechyd Emosiynol a Llesiant y Cyfnod Uwchradd
- Darpariaeth Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4
- Darpariaeth Ôl 16

**Cynigion ar gyfer Darpariaeth mewn Canolfan Adnoddau Arbennigol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd**
- Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
- Nifer y llefydd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

**Ansawdd a Safonau**
- Estyn
- Categoreiddio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru

**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?**
- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

**Cymorth ychwanegol i ddisgyblion**
- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

**Beth yw manteision y newidiadau arfathedig?**
**Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig**
**Opsiynau eraill a ystyriwyd**
**Materion Adnoddau Dynol**
**Materion Trafnidiaeth**
**Dweud eich dweud**

**Cynigion ar gyfer darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbennigol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain**
- Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Nifer y llefydd yn yr ysgol
- Y galw am lefydd yn yr ysgol.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol

**Ansawdd a Safonau**
- Estyn
- Categoreiddio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru

**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?**
- Safonau
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth a rheoli

**Cymorth ychwanegol i ddisgyblion**
- Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig?

**Beth yw manteision y newid arfathedig?**
**Anfanteision posibl y newid arfaethedig**
**Opsiynau eraill a ystyriwyd**
**Materion Adnoddau Dynol**
**Materion Trafnidiaeth**
**Dweud eich dweud**
**Gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ddau gynnig**
**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?**
**Trefniadau derbyn**
**Trefniadau Teithio Dysgwyr**
**Materion Ariannol**
**Darpariaeth Iechyd**
**Trefniadau Llywodraethiant**
**Effaith y cynigion ar y Gymraeg**
**Cydraddoldeb**
**Effaith Gymunedol**
**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**
**Amhariad Posibl i Ddisgyblion**
**Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth**
- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Dyddiadau allweddol
- Cyfnod ymgynghori
- Hysbysiad Statudol
- Adroddiad Gwrthwynebu
- Penderfynu ar y Cynigion
- Hysbysu'r Penderfyniad

**Dweud eich dweud**
- Ffurflen ymateb i ymgynghoriad


# Cyflwyniad

## Llyfryn am beth yw hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd. Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr plant sy'n mynychu, neu'n disgwyl mynychu, ysgolion arbennig neu Ganolfannau Adnoddau Arbennigol a'r rhai sydd wedi gweithio neu ar hyn o bryd yn gweithio gyda phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'n nodi cynigion i gynyddu nifer y lleoedd adnoddau arbennigol uwchradd ar gyfer dysgwyr 11-19 oed ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant, a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw am leoedd canolfan adnoddau arbennigol i ddysgwyr 11 – 19 oed sydd ag anghenion emosiynol a llesiant, cynigir:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol â 20 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbennigol â 20 lle yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2022

Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion ar wahân i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant rhwng 11 a 19 oed yn Ysgol Arbennig Greenhill a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth neu gyflyrau sbectrwm awtistiaeth rhwng 4 a 19 oed mewn amrywiaeth o ysgolion ledled Caerdydd.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cynigion hyn yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY



Canfod mwy yma www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
Ysgolion yr 21ain Ganrif darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ady)

# Ymgynghoriad

## Â phwy ydym yn ymgynghori?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o hyn, rydym yn gofyn i bobl am eu barn ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl modd y gall pobl gynnig eu barn i ni.

**Mae Tabl 1 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori:**

| Grwpiau y mae'r cyngor yn ymgynghori â nhw | |
|---|---|
| Plant a phobl ifanc | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni / gofalwyr | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| Staff ysgol | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol-barth y De (GACCCD) |
| Cyrff Llywodraethu Ysgolion | Comisiynydd y Gymraeg |
| Preswylwyr lleol | Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| Cynghorau Cymuned | Undebau Llafur |
| Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS) /Aelodau Seneddol (ASau) | Darparwyr gofal plant |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Mudiad Meithrin |
| Awdurdodau Cymdogol | Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru |
| Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymdogol o fewn Caerdydd | Clybiau Plant Cymru Kids Club |
| Estyn | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Fforwm Addysg Gymraeg |
| Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro | Sefydliadau y Sector Gwirfoddol |
| Busnesau a sefydliadau lleol | Comisiynydd Traffig Cymru |

## Barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig

Mae Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac mae barn plant a phobl ifanc yn allweddol i'r modd y darperir addysg. Mae'n bwysig wrth ddwyn cynigion ger bron, bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion sy'n rhan o'r cynigion hyn a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

## Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Os na allwch gael mynediad i'r dogfennau ar-lein, bydd copïau print ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio 029 2087 2720.

Byddwn yn dweud wrth deuluoedd â phlant yn yr ysgolion dan sylw sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.

Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhoi i breswylwyr a busnesau yn agos at y safleoedd ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion.

Cynhelir cyfarfodydd ar-lein lle bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau fel rhan o'r sesiynau hyn. Os hoffech fynd i gyfarfod ar-lein cysylltwch â ni drwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau pa gyfarfod yr hoffech fod ynddo a byddwn yn darparu dolen a chyfarwyddiadau ar sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod hwn.

Bydd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â Chyrff Llywodraethu a staff yr ysgolion dan sylw.

Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i ddweud beth yw eich barn wrthym.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus wedi eu nodi isod:

**Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori**

| Natur yr ymgynghoriad | Dyddiad / Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Cyfarfod cyhoeddus are-lein | Dydd Mercher 12 Ionawr, 5:30pm | Ar-lein drwy Microsoft Teams |
| Sesiynau galw heibio | Ar gais drwy e-bostio: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk | Ar-lein drwy Microsoft Teams |

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym ni beth rydych yn feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Fynychu'r cyfarfod cyhoeddus neu'r sesiynau galw heibio uchod.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Cwblhau'r ffurflen ymateb i ymgynghoriad, sydd i'w chael ar dudalen 41.
- Cysylltu â'r tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bost ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk, dros y ffôn ar (029) 2087 2720 neu drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

## Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 31 Ionawr 2022

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

## Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Sylwer ar y termau canlynol a ddefnyddir gydol y ddogfen hon:

**Nifer Derbyn -** mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion o leiaf hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig. Y Nifer Derbyn yw nifer y llefydd i ddisgyblion sydd ar gael ym mhob un grŵp blwyddyn.

**ADY -** Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddo anawsterau sy'n cael effaith hirdymor sylweddol ar eu dysgu. Gall anawsterau fod yn gysylltiedig â dysgu; cyfathrebu a rhyngweithio; anabledd corfforol neu synhwyraidd; neu ddatblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

**Ysgolion Cymunedol -** ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor sydd yn trefnu derbyniadau i ysgolion.

**Anghenion Dysgu Cymhleth -** mae gan blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth amrywiaeth o faterion a chyfuniad o anghenion haenog. Gallai'r rhain gynnwys anghenion sy'n gysylltiedig â dysgu, cyfathrebu, anableddau corfforol neu synhwyraidd.

**Anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant -** mae gan blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant broblemau o ran meddwl, teimlo ac ymddwyn. Mae hyn yn effeithio ar reoli sut mae bywyd yn effeithio arnynt, sut maent yn ymdopi, sut maent yn ymgysylltu ag eraill, y dewisiadau a wnânt. Weithiau mae hyn o ganlyniad i drawma. Gall plant a phobl ifanc arddangos pryder, hunan-barch isel, ffobia ysgol, neu anawsterau ymddygiadol.

**Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHYYY/EOTAS) -** darpariaeth addysg i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am wahanol resymau, fynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae AHYYY yn cyfeirio at addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac nid yw'n cwmpasu addysg ddewisol yn y cartref.

**Prif ffrwd -** mae ysgol prif ffrwd yn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor nad yw'n ysgol arbennig. Nid yw ysgolion prif ffrwd/arbennig a gynhelir gan y Cyngor yn dethol disgyblion ac nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr dalu ffioedd.

**Data Nifer ar y Gofrestr -** nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

**CYBLD -** Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

**Gweithredu gan yr Ysgol -** Pan fo athro dosbarth neu bwnc yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy -** Pan fo arbenigwyr o'r tu allan yn helpu staff dosbarth neu ysgol i roi cymorth ychwanegol i ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn wahanol neu yn ychwanegol i gymorth a roddir drwy Gweithredu gan yr Ysgol.

**Ysgol Arbennig -** ysgol ar gyfer plant ag angen dysgu ychwanegol neu anabledd, na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol prif ffrwd. Mae gan y disgyblion mewn ysgol arbennig ddatganiad AAA, neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

**Canolfan Adnoddau Arbennigol (CAA) -** Dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag Anghenion dysgu ychwanegol sylweddol. Mae gan bob disgybl sy'n mynychu CAA ddatganiad AAA ac fe'u haddysgir gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu, ac maent yn cael cyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu â disgyblion prif ffrwd eraill.

**Dosbarthiadau Llesiant -** Mae Caerdydd hefyd yn ariannu nifer o ddosbarthiadau lles sy'n rhoi cymorth dwys tymor byr i blant a phobl ifanc sy'n arddangos anghenion iechyd emosiynol a llesiant, er mwyn cefnogi parhau â'u lleoliad yn eu hysgol brif ffrwd leol. Dros dro am flwyddyn yw lleoliad mewn Dosbarth Lles: mae'r plentyn yn parhau i fod ar y gofrestr yn ei ysgol leol, a chânt eu cefnogi i ddychwelyd yn llawn amser i'w hysgol leol erbyn diwedd y rhaglen.



## Cefndir

Mae gweledigaeth Caerdydd ar gyfer addysg a dysgu yng Nghaerdydd yn 2030 yn gosod nod o Hawl Dysgu, lle gall pob plentyn a pherson ifanc:

- gael mynediad at lwybrau priodol i gyfleoedd addysg a dysgu
- ffynnu a chyflawni eu potensial
- gwireddu eu breuddwydion a'u huchelgeisiau unigol

Er mwyn gwella deilliannau dysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd, â llawer ohonynt yn wynebu rhwystrau i ymgysylltu ag addysg a dysgu, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn allweddol.

Mae gweledigaeth Caerdydd ar gyfer 2030 ar gael i'w gweld ar caerdydd.gov.uk/caerdydd2030

### Yr ymagwedd at Gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd

Mae ymagwedd effeithiol a chynhwysol o gefnogi ADY yng Nghaerdydd yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Ysgolion a lleoliadau sy'n cyflwyno cwricwlwm arloesol gyda dulliau ysgol gyfan effeithiol o addysgu a dysgu, iechyd emosiynol a llesiant.
- Gwasanaethau arbenigol rhagorol i wella gallu ysgolion a lleoliadau eraill i gynnwys plant a phobl ifanc ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol.
- Nodi'n gynnar yn effeithiol ac ymyrraeth sy'n seiliedig ar ymchwil er mwyn atal anghenion dysgu ychwanegol rhag dwysáu lle bynnag y bo modd.
- Lefelau uchel o hygyrchedd ym mhob adeilad ysgol gyda digon o ofod hyblyg ym mhob ysgol sy'n briodol i oedran a chyfnod y dysgu.
- Partneriaethau cryf i sicrhau ymateb cyfannol, cydweithredol i anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc (gan gynnwys iechyd, gwasanaethau plant ac oedolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac Addysg Bellach).
- Cynllunio pontio amlasiantaethol effeithiol ar bob cam, o'r blynyddoedd cynnar hyd at gyrchfannau cynradd, uwchradd, ôl-16 ac oedolion, i gefnogi mynediad yn ddi-oed.

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sydd angen lleoliad arbenigol o ganlyniad i'w hanableddau dysgu wedi bod yn cynyddu yng Nghaerdydd dros y 5 mlynedd diwethaf, a chymerwyd camau yn 2018 i gynyddu nifer y lleoedd arbenigol sydd ar gael.

Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn ceisio gwella mynediad i addysg yn unol â'r egwyddorion cynhwysiant uchod.


Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

## Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn elwa ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) effeithiol. Nid oes angen i'r dysgwyr hyn fynychu ysgol arbennig na Chanolfan Adnoddau Arbennigol.

Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol, wedi parhau i dyfu.

Mae hyn oherwydd:

- Mae'r boblogaeth disgyblion yn newid, gyda charfanau mwy o ddisgyblion oedran ysgol gynradd bellach yn symud drwodd i'r cyfnod oedran uwchradd.
- Cyfraddau goroesi gwell ar gyfer plant sy'n cael eu geni ag anableddau sylweddol, gan arwain at nifer uwch o ddisgyblion ag anableddau difrifol a chymhleth.
- Mwy o gymhlethdod o ran anghenion, sydd wedi golygu bod y galw am ddarpariaeth arbenigol wedi parhau i dyfu. Mae'r ystod o arbenigedd, cymorth arbenigol a chyfleusterau sydd eu hangen mewn ysgolion arbennig a CAA au hefyd wedi cynyddu.
- Mwy o achosion ac adnabod anghenion penodol fel awtistiaeth, ADCG, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau.
- Mwy o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant Roedd hyn yn duedd cyn COVID 19 ond mae wedi'i waethygu oherwydd y cau ar ysgolion a mesurau eraill i reoli'r pandemig.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd yn cynnal Canolfannau Adnoddau Arbenigol (CAA). Mae rhai wedi'u dynodi i gefnogi plant ag anghenion dysgu cymhleth sydd angen cwricwlwm arbenigol a addysgir mewn amgylchedd dosbarth bach; mae rhai wedi'u dynodi ar gyfer dysgwyr ag awtistiaeth neu nam ar eu clyw sydd angen cymorth arbenigol i gael mynediad at ddysgu prif ffrwd, gyda mynediad i ganolfan anogaeth ar gyfer rhywfaint o amser dysgu a heb ei strwythuro.

Diben Canolfan Adnoddau Arbenigol yw galluogi dysgwyr ag anawsterau dysgu i lwyddo mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn dosbarth bach gan staff arbenigol ac maent yn elwa ar gwricwlwm arbenigol, tra'n elwa ar yr ystod lawn o gyfleoedd addysg sydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd 2,265 o blant yng Nghaerdydd gyda datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Wrth i'r boblogaeth dyfu, felly hefyd bydd nifer y plant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol a chymhleth.





Yn 2020/21:

- Ariannwyd cyfanswm o 1,116 o leoedd mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol neu ysgolion arbennig gan Gyngor Caerdydd.
- Roedd 48 o leoedd dros dro i ddysgwyr ar gael mewn Dosbarthiadau Llesiant a Dosbarthiadau Lleferydd ac Iaith
- Roedd 90 o leoedd ar gael yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)

Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael. Rhagwelir y bydd nifer y plant a fyddai'n elwa o le yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig yn ardaloedd Cynghorau eraill neu mewn ysgolion annibynnol. Cyfanswm y gwariant ar y lleoedd hyn oedd £6.3m yn 2020/21. Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 ar gyfer y mathau hyn o leoedd wedi'i phennu ar £7.3m.

Mae gwariant ar leoedd annibynnol a lleoedd ysgol arbennig mewn ardaloedd Cyngor cyfagos wedi cynyddu i tua £3.8m yn 2020/21. O hyn, mae tua £2.5m wedi ariannu lleoedd arbenigol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles. Heb fuddsoddi mewn lleoedd ychwanegol, byddai disgwyl i gost y lleoedd hyn dyfu'n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.

Y gost i'r Cyngor ar gyfer cludiant ysgol i ddysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles i'r lleoliadau hyn, ar gyfartaledd, oedd £6,000 y plentyn yn 2018/19 (y flwyddyn ddiweddaraf cyn cyfyngiadau Covid-19).

## Dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol

Nid yw lleoliad Canolfannau Adnoddau Arbenigol a Dosbarthiadau Llesiant wedi'u dosbarthu'n dda ar draws y ddinas.


Gellir gweld map sy'n dangos lleoliad y ddarpariaeth arbenigol bresennol ar dudalen 10.

Gall diffyg Canolfannau Adnoddau Arbenigol mewn rhai ardaloedd roi dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny dan anfantais. Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli. Efallai nad oes gan rieni neu ofalwyr y modd i deithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Byddai dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ar draws y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion. Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

Ysgolion yr 21ain Ganrif
darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
ag anghenion dysgu ychwanegol (ady)


Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY




**Special schools & SRBs: Type & Capacity**

- Autism (7)
- Behavioural, Emotional & Social Needs (3)
- Hearing Impairment (2)
- Profound & Multiple Learning Disabilities, Medical Needs, Autism (1)
- Severe Learning Disabilities, Medical Needs, Speech and Language, Autism (10)

This copy is produced specifically to supply County Council information. NO further copies may be made.
Mae'r copi hwn wedi'i gynhyrchu'n benodol i gyflenwi gwybodaeth y Cyngor Sir. Ni ellir gwneud copïau pellach.
© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023376
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023376





## Darpariaeth Iechyd Emosiynol a Llesiant (11 – 19)

### Darpariaeth bresennol

Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd 180 o leoedd ar gyfer plant o oed cynradd sydd ag anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant.

**Mae Tabl 3 isod yn nodi'r ddarpariaeth iechyd emosiynol a llesiant cyfnod Uwchradd sydd ar gael ar hyn o bryd fesul Cyfnod Allweddol.**

| Capasiti Iechyd Emosiynol a Llesiant 11 - 19 Oed (2021/22) | | | |
|---|---|---|---|
| Sefydliad | 11 – 14 Oed (Cyfnod Allweddol 3) | 14 – 16 Oed (Cyfnod Allweddol 4) | Ôl-16 |
| Ysgol Arbennig Greenhill | 32 | 24 | 8 |
| Canolfan Carnegie | - | 28 | - |
| Uned Cyfeirio Disgyblion Bryn y Deryn | - | 48 | - |
| ACT arbennig | - | 40 | - |
| **Cyfanswm y ddarpariaeth** | **32** | **140** | **8** |

Mae'r sefydliadau hyn i gyd yn rhai cyfrwng Saesneg. Maent yn rhyw gymysg ac yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion na ellir eu diwallu mewn ysgolion prif ffrwd:

- Mae Ysgol Greenhill yn darparu ar gyfer dysgwyr o 11-19 oed sydd ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant sylweddol.
- Mae gan Ganolfan Carnegie ddarpariaeth ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sydd ag anghenion gorbryder ac iechyd meddwl sy'n eu hatal rhag mynychu ysgol prif ffrwd.
- Mae Bryn y Deryn yn Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 (14 – 16 oed). Mae gan bob un o'r dysgwyr anghenion emosiynol a llesiant sylweddol.
- Mae ACT yn ddarpariaeth bartner a gomisiynwyd gan y Cyngor ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 (11 – 16 oed).

Ysgolion yr 21ain Ganrif
darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
ag anghenion dysgu ychwanegol (ady)


Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

### Galw am leoedd

### Y Galw Iechyd Emosiynol a Llesiant a Ragwelir  Galw Cyfnod Uwchradd

Mae Tabl 4 isod yn nodi’r galw a ragwelir yn y dyfodol am leoedd Iechyd Emosiynol a Llesiant  bobl ifanc 11 - 19 oed

| Lleoedd Iechyd Emosiynol a Llesiant Uwchradd | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagamcan o alw Cyfnod Allweddol 3 | 122 | 125 | 127 | 129 | 129 |
| Rhagamcan o alw Cyfnod Allweddol 3 (+10%) | 134 | 138 | 140 | 142 | 142 |
| **Diffyg Cyfnod Allweddol 3** | **102** | **106** | **108** | **110** | **110** |
| Rhagamcan o alw Cyfnod Allweddol 4 | 200 | 210 | 217 | 218 | 219 |
| Rhagamcan o alw Cyfnod Allweddol 4 (+10%) | 220 | 231 | 239 | 240 | 241 |
| **Diffyg Cyfnod Allweddol 4** | **80** | **91** | **99** | **100** | **101** |
| Rhagamcan o alw Ôl-16 | 25 | 27 | 28 | 31 | 32 |
| Rhagamcan o alw Ôl-16 (+10%) | 27 | 29 | 31 | 34 | 36 |
| **Diffyg Ôl-16** | **19** | **21** | **23** | **26** | **28** |
| **Cyfanswm Diffyg** | **201** | **1218** | **2230** | **236** | **239** |

### Darpariaeth Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

Yn 2021/22 mae cyfanswm o 172 o leoedd Iechyd Emosiynol a Llesiant arbenigol Cyfnod Allweddol 3/4 mewn ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd (gan gynnwys lleoedd addysg heblaw yn yr Ysgol [AHYYY/EOTAS] a gomisiynwyd). Gan ystyried disgyblion y tu allan i’r sir, a rhai prif ffrwd sy’n aros am leoliad arbenigol, amcangyfrifir mai tua 322 yw cyfanswm y galw am leoedd yn 2021/22, y rhagwelir y bydd yn codi i 348 erbyn 2025/26.

Gan ganiatáu gwarged o 10% i gefnogi hyblygrwydd, digon o gapasiti fyddai darparu 354 o leoedd yn 2021/22, a 383 o leoedd erbyn 2025/26.


I grynhoi, amcangyfrifir bod diffyg o 182 o leoedd yn 2021/22, gan godi i 211 erbyn 2025/26.

### Darpariaeth Ôl 16

Tan 2018, nid oedd Caerdydd yn cynnal unrhyw leoedd ôl-16 ar gyfer Iechyd Emosiynol a Llesiant, er bod disgyblion a ariennir yn y sector annibynnol yn aml yn aros i B14. Sefydlwyd wyth lle ôl-16 yn Greenhill yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol yn 2018. Mae nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru eisoes wedi codi i 15 yn 2021-22.

Mae’n anodd rhagweld y galw am y grŵp oedran hwn yn gywir, oherwydd diffyg patrymau galw i seilio amcanestyniadau arnynt, ond gwyddys nad yw’r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgolion arbennig yn gallu cynnal cyfnod pontio llwyddiannus i Sefydliad Addysg Bellach neu gyflogaeth yn 16 oed.

Yn ddelfrydol, dylai darpariaeth ysgolion arbennig uwchradd gynnwys darpariaeth ôl-16 gyda chapasiti i’r rhan fwyaf o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4  aros ymlaen nes eu bod yn 18 neu 19 oed h.y. dylai ysgol arbennig ar gyfer 56 o leoedd Cyfnod Allweddol 3/4 gynnwys 24 o leoedd ôl-16.



# Cynnig i sefydlu darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant

Mae Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yn ysgol uwchradd gymunedol Saesneg ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Lleolir yr ysgol yn Penally Road, Caerau.

Symudodd yr ysgol i adeiladu newydd ym mis Ebrill 2019



Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol i ddysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant rhwng 11 a 19 oed, bwriedir:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol â 20 lle yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022

Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya yn adeiladau presennol yr ysgol.

## Nifer y llefydd yn yr ysgolion

Mae Tabl 5 isod yn rhoi manylion am y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (11 - 16 oed) | Llefydd fesul grŵp blwyddyn (4 - 11 oed) | Lleoedd chweched dosbarth | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd | 1200 | 240 | 300 | Ysgol Uwchradd Gymunedol Saesneg |

Capasiti presennol Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yw 1500 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 812 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ebrill 2021.

## Y galw am lefydd yn yr ysgol

**Mae Tabl 6 isod yn nodi manylion rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd**

| Rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD) | | | | | Galw Disgyblion Ysgol* | | | | |
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
| Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd | 0 | 663 | 676 | 773 | 882 | 1019 | 1190 | 1249 | 1266 | 1269 |
| Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd – Lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol | 0 | 0 | 6 | 6 | 11 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |

* Galw disgyblion ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth y dalgylch lleol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

## Tabl 7 Sgorau cyflwr ac addasrwydd

| Sgôr | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da a gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael a diffygion mawr. | Gwael. Llesteirio dulliau addysgu / effaith wael ar drefn yr ysgol. |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol. | Gwael iawn. Adeiladau'n llesteirio'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Mae Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd wedi ei graddio ag A am gyflwr ac A am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth ysgol arbennig.


Ysgolion yr 21ain Ganrif darpariaeth ar gyfer Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd


Canfod mwy yma www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

# Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

## Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.gov.uk







## Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (CACCCD) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocera unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

**Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 8 isod:**

| Categori cymorth | Beth yw ystyr y categori |
|---|---|
| Gwyrdd | Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella |
| Melyn | Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella. |
| Oren | Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach. |
| Coch | Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth. |

Penderfynir ym mha gategori lliw y bydd ysgol yn ôl sut caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddar pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yma:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr-2.pdf

## Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

Arolygwyd Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2019.

Ar yr adeg hon, barnwyd bod y safonau, y llesiant a'r agweddau at ddysgu, profiad addysgu a dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth i gyd yn ddigonol ac angen eu gwella.

Yn y Categoreiddio Ysgolion Diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ei chategoreiddio'n Goch (Ysgol y mae angen ei gwella fwyaf a bydd yn cael cymorth dwys ar unwaith).

Ysgolion yr 21ain Ganrif darpariaeth ar gyfer Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd



Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Rhoddodd asesiad gan Gonsortiwm Canolbarth y De cyn y pandemig y gwerthusiad canlynol:

- Mae'r ysgol yn gwella ei hanes o godi cyflawniad disgyblion gan gynnwys cyflawniad dysgwyr sy'n agored i niwed dros amser.
- Roedd cyfran y disgyblion a wnaeth ddwy lefel neu fwy o gynnydd o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3, o'i gymharu â chyfartaleddau lleol a rhanbarthol, yn is yn y ddau fathemateg ac yn llawer is mewn Saesneg ac mewn gwyddoniaeth.
- Bu gwelliannau clir mewn agweddau at ddysgu.
- Mae'r dirprwy bennaeth yn gweithredu system gadarn ar gyfer olrhain cynnydd pob disgybl o'i gymharu â'u targedau.
- Mae gan yr ysgol ddefnydd adeiladol wedi'i gynllunio'n dda o gronfeydd Grant Amddifadedd Disgyblion gyda'r bwriad o wella canlyniadau ar gyfer disgyblion eFSM (Prydau Ysgol am Ddim) tra'n datblygu'r medrau craidd ar draws y cwricwlwm.

## Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

### Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (http://www.addewidcaerdydd.co.uk/).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yn gwella. Byddai sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc ag anghenion emosiynol a llesiant. Ni ddisgwylir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar safonau yn yr ysgol.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg.

### Profiadau dysgu ac addysgu

Bydd y cyfleusterau ysgol newydd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r 'Cwricwlwm i Gymru' newydd ar gyfer dysgwyr (3 – 16 oed) y disgwylir iddo gael ei roi ar waith yn ysgolion Cymru o fis Medi 2022. Bydd y cwricwlwm newydd yn mabwysiadu ymagwedd sy'n gynhwysol ac wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r angen i baratoi plant a phobl ifanc yng Nghymru i ffynnu a bod yn llwyddiannus mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Cydnabyddir y dylai'r cwricwlwm roi dysg mwy eang a dyfnach, sicrhau cynnydd gwell, rhoi cyfle i ddefnyddio amser a lle gyda mwy o ddychymyg a chreadigrwydd a rhoi llawer mwy o bwyslais ar sgiliau. Bydd cyfleusterau ysgol newydd a gwell yn helpu i gefnogi'r weledigaeth hon.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd.

### Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth gofal ac arweiniad.

### Arwain a Rheoli

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Bydd yn cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

**Mae Tabl 9 isod yn dangos canrannau:**

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o leiafrifoedd ethnig ym mhob un o'r ysgolion

yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

| Ysgol | % y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol | % y disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | % y disgyblion â datganiad ADY | % y Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd | % y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt | % y disgyblion o Leiafrif Ethnig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd | 22.1 | 12.7 | 4.5 | 55 | 6.2 | 25.2 |


Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Ysgolion yr 21ain Ganrif
darpariaeth ar gyfer Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

### Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Bydd Ysgol i'r 21ain Ganrif yn caniatáu i gyfleusterau gael eu teilwra i anghenion y plant sy'n ei mynychu. Mae cyfleusterau wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'u hanghenion dysgu ac i ddarparu amgylcheddau tawel a strwythuredig i gefnogi dysgu.

Byddai arbenigedd ac arfer cynhwysol presennol yr ysgol yn cael eu cynnal. Byddai sefydlu darpariaeth arbenigol yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac i wella dysgu disgyblion mewn cyfleusterau pwrpasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd fod yn annifyr a pheri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.

### Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n cael cymorth oherwydd eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel iaith ychwanegol eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

### Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Mae'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion yr ysgol sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

### Beth fyddai'r effaith ar Ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y câi'r cynigion effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

## Beth yw manteision y newid arfathedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod disgyblion sy'n byw yng ngorllewin y ddinas yn teithio bellteroedd byrrach i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol nag a fyddent i ddarpariaeth amgen.
- Mae'r adeilad newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei chael hi'n anodd newid. Efallai y byddai newidiadau i adeiladau yn eu hansefydlogi. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath.
- Mae potensial ar gyfer mwy o draffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ran canolfannau adnoddau arbenigol ledled y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Cynigir hefyd nifer o gynlluniau ehangu eraill a darpariaeth newydd mewn ysgolion eraill ledled y ddinas.

Nid oes darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ardal hon ar hyn o bryd. Mae pob plentyn yn yr ardal hon sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol yn teithio i ardaloedd eraill ar hyn o bryd.

Gallai opsiynau amgen ar gyfer sefydlu darpariaeth yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd gynnwys:

- ehangu darpariaeth debyg ar safleoedd ysgolion uwchradd eraill
- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu nifer wahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae'r safonau yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yn gwella. Mae sefydlu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol yn darparu nifer cynyddol o leoedd ysgol o ansawdd uchel priodol. Felly, ystyrir bod sefydlu darpariaeth yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n deillio o sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ar gyfer ysgolion.


Ysgolion yr 21ain Ganrif darpariaeth ar gyfer Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd


Canfod mwy yma www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

## Materion trafnidiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer canolfannau adnoddau arbenigol. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai dysgwyr sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafnidiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion unigol a materion cymdeithasol. Gall dysgwyr eraill deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os yn preswylio o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fydd yn gymwys ar gyfer Cludiant i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus.

Gan fod y Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth canolfannau adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

Efallai y bydd cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau anghenion dysgu ychwanegol yn gofyn am Ddatganiad Trafnidiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau'r teithio mwyaf posibl drwy ddulliau cynaliadwy.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio i'r ysgol drwy ddulliau actif (cerdded, beicio a sgwtera) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gyda'r galw cynyddol disgwyliedig am Gludiant i Ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, mae'n bosibl y bydd angen cyfleusterau wedi'u gwella a / neu eu hehangu ar gyfer gollwng a chasglu o fewn y safle i ddarparu ar gyfer y niferoedd priodol o gerbydau. Byddai cyfyngiadau parcio ychwanegol ar hyd Penally Road o amgylch amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol yn lleihau tagfeydd a phroblemau parcio ac yn gwella diogelwch disgyblion.

## Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynigion. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai yn unig, fel sydd orau gennych.


Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 31 Ionawr 2022.





# Cynnig i sefydlu Darpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant

Mae Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn ysgol uwchradd gymunedol Saesneg ar gyfer disgyblion 11-16 oed. Mae'r ysgol wedi'i chydleoli â darpariaeth ôl-16 Coleg Caerdydd a'r Fro mewn adeiladau newydd yn Heol Trowbridge, Trowbridge.




Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol i ddysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant rhwng 11 a 19 oed, bwriedir:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2022

Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei darparu i ddechrau o fewn yr adeiladau presennol a rennir gan Ysgol Uwchradd y Dwyrain a Choleg Caerdydd a'r Fro, gyda gwaith diweddarach i'w wneud i ddarparu llety a chyfleusterau ychwanegol.

## Nifer y llefydd yn yr ysgolion

**Mae Tabl 10 isod yn rhoi manylion y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain**

| Enw'r ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (11 - 16 oed) | Llefydd fesul grwp blwyddyn (11 - 16 oed) | Lleoedd chweched dosbarth | Cyfrwng iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | 1200 | 240 | -- | Ysgol uwchradd gymunedol Saesneg |

Capasiti presennol Ysgol Uwchradd y Dwyrain yw 1200 o leoedd ac roedd gan yr ysgol 1095 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ebrill 2021.



## Y galw am lefydd yn yr ysgol

**Mae Tabl 11 isod yn nodi manylion rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain.**

| Rhifau diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Data Nifer ar y Gofrestr (CYBLD) | | | | | Galw Disgyblion Ysgol* | | | | |
| Ysgol | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | 700 | 730 | 864 | 968 | 1095 | 1190 | 1283 | 1334 | 1359 | 1357 |
| Canolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Uwchradd y Dwyrain | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 10 | 15 | 20 |

* Galw disgyblion ysgol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth y dalgylch lleol

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i D (oes wedi dirwyn i ben / wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant) i D (gwael – adeiladau'n effeithio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 12 Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Gradd | Cyflwr | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da a gweithredu'n effeithlon | Da. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael â diffygion mawr. | Gwael. Llesteirio dulliau addysgu / effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg o fethu yn uniongyrchol. | Gwael iawn. Adeiladau'n llesteirio'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Mae Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn sgorio A am gyflwr ac A am addasrwydd.

Byddai'r safle, a'r seilwaith lleol oddi ar y safle, yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth ysgol arbennig.


Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

## Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chynorthwyo i wella ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) yw'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol yng Nghaerdydd.

Rhaid i Awdurdodau Lleol, megis Cyngor Caerdydd ystyried adroddiadau Estyn a thystiolaeth arall am berfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion wrth gynnig newidiadau i ysgolion.

Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried effaith debygol y newidiadau arfaethedig ar:

- safonau, llesiant ac agweddau at ddysgu
- profiadau dysgu ac addysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth (arweiniad, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

### Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Mae adroddiadau arolygu perthnasol Estyn yn darparu graddau yn erbyn Cwestiynau Allweddol ac yn rhoi argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

Gallwch weld adroddiadau arolygon Estyn ar eu gwefan: www.estyn.llyw.cymru

### Categoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gategoreiddio newydd.

Mae'n edrych ar safonau pob ysgol a faint y gall ysgol wella. Mae hyn yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgolion. Yna, mae sefydliadau fel Consortiwm Canolbarth y De (CACCCD) a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i nodi, darparu a/neu frocera unrhyw gymorth sydd ei angen i wella ymhellach.

**Disgrifir y system gategoreiddio yn Nhabl 13 isod:**

| Categori cymorth | Beth yw ystyr y categori |
|---|---|
| Gwyrdd | Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, y mae ganddi arweinyddiaeth gref ac mae'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella |
| Melyn | Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd mae angen iddi wella. |
| Oren | Ysgol y mae angen iddi wella ac sydd angen cymorth i nodi pa gamau y gall eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach. |
| Coch | Ysgol â'r angen mwyaf am newid ac a gaiff gymorth dwys yn syth. |

Penderfynir ym mha gategori lliw y bydd ysgol yn ôl sut caiff ei sgorio o ran safonau (1-4) a sut y gall wella (A-D).

1 yw'r sgôr orau ar gyfer safonau ac A yw'r orau ar gyfer gwella.

Cyhoeddir categori diweddaraf pob ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio yng nghanllaw Llywodraeth Cymru i rieni ar y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yma:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-canllawiau-i-rieni-a-gofalwyr-

### Ysgol Uwchradd y Dwyrain

Arolygwyd Ysgol Uwchradd y Dwyrain ddiwethaf gan Estyn ym mis Rhagfyr 2014.

Ar yr adeg hon barnwyd bod perfformiad a rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn anfoddhaol.

Yn dilyn ymweliad monitro pellach ym mis Tachwedd 2017, barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol ac fe'i tynnwyd o'r rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig.

Yn y Categoreiddio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Uwchradd y Dwyrain ei chategoreiddio yn Felyn (ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod lle y mae angen iddi wella).

Rhoddodd asesiad gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn yr Hydref 2021 y gwerthusiad canlynol:

- Mae gan yr ysgol hanes da iawn o godi cyflawniad bron pob disgybl, gan gynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed dros y cyfnod tair blynedd blaenorol.
- Roedd cyfran y disgyblion a wnaeth ddwy lefel neu fwy o gynnydd o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3, o'i gymharu â chyfartaleddau lleol a rhanbarthol, yn llawer is mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- Mae arweinwyr drwy'r gyfan yn cynllunio ac yn gweithredu newid ac yn cynnal gwelliant yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o agweddau. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gosod y cyfeiriad ar gyfer gwaith y tîm staff ac mae'r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu pob disgybl.


Ysgolion yr 21ain Ganrif darpariaeth ar gyfer Ysgol Uwchradd y Dwyrain

## Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgol?

### Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd (http://www.addewidcaerdydd.co.uk/).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau yn uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae safonau yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn dda. Byddai sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc ag anghenion emosiynol a llesiant.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd y safonau addysg yn yr ysgol.

### Profiadau dysgu ac addysgu

Mae cyfleusterau newydd yr ysgol yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r 'Cwricwlwm i Gymru' newydd ar gyfer dysgwyr (3 – 16 oed) y disgwylir iddo gael ei roi ar waith mewn ysgolion yng Nghymru o fis Medi 2022. Bydd y cwricwlwm newydd yn mabwysiadu ymagwedd sy'n gynhwysol ac wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r angen i baratoi plant a phobl ifanc yng Nghymru i ffynnu a bod yn llwyddiannus mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Cydnabyddir y dylai'r cwricwlwm roi dysg mwy eang a dyfnach, sicrhau cynnydd gwell, rhoi cyfle i ddefnyddio amser a lle gyda mwy o ddychymyg a chreadigrwydd a rhoi llawer mwy o bwyslais ar sgiliau. Bydd cyfleusterau ysgol newydd a gwell yn helpu i gefnogi'r weledigaeth hon.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

### Cymorth gofal ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod briodol o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal cymorth gofal ac arweiniad.

### Arwain a Rheoli

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinyddiaeth yr ysgol i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinyddiaeth a llywodraethiant yr ysgol, a allai gael effaith negyddol ar safonau addysgol.

## Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 14 isod yn dangos canrannau:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion sy'n â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o leiafrifoedd ethnig ym mhob un o'r ysgolion

yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain

| Ysgol | % y disgyblion ar Weithredu gan yr Ysgol | % y disgyblion ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy | % y disgyblion â datganiad ADY | % y Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd | % y disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt | % y disgyblion o Leiafrif Ethnig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | 16.6 | 11.3 | 2.7 | 46.6 | 2.5 | 22.1 |

### Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Bydd adeilad Ysgol i'r 21ain Ganrif yn caniatáu i gyfleusterau gael eu teilwra i anghenion y plant sy'n ei mynychu. Mae cyfleusterau wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'u hanghenion dysgu a darparu amgylcheddau tawel a strwythuredig i gefnogi dysgu.

Byddai arbenigedd presennol yr ysgol yn cael ei gynnal. Byddai sefydlu darpariaeth arbenigol yn rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu staff ac i wella dysgu disgyblion mewn cyfleusterau pwrpasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall newid mewn amgylchedd fod yn annifyr a pheri gofid i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai disgyblion yn cael eu cefnogi i'w galluogi i addasu i'r newidiadau arfaethedig.





Canfod mwy yma www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

### Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt?

Gellir cefnogi disgyblion sy'n cael cymorth oherwydd eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael eu cefnogi. Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

### Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Mae'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

### Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion o Leiafrif Ethnig?

Asesir anghenion disgyblion unigol a darperir ar eu cyfer fel y bo'n briodol. Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y câi'r cynigion effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

## Beth yw manteision y newid arfathedig?

- Byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant a byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragwelir.
- Byddai'r cyfle i gyflogi staff arbenigol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella addysgu cynhwysol yr ysgol. Byddai hyn o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.
- Byddai'r cynnig yn sicrhau bod disgyblion sy'n byw yn nwyrain y ddinas yn teithio pellteroedd byrrach i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol na theithio i ddarpariaeth amgen.
- Mae'r adeiladau newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.





## Anfanteision posibl y newid arfaethedig

- Gall rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gael newid yn beth anodd. Efallai y gall newidiadau i adeiladau eu hansefydlogi. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r newidiadau. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi newidiadau o'r fath.
- Mae potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ganolfannau adnoddau arbenigol ledled y ddinas. Byddai hyn yn gwella mynediad i ddisgyblion, ac yn lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

Nid oes darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol yn yr ardal hon ar hyn o bryd. Mae pob plentyn yn yr ardal hon sydd angen lleoliad mewn canolfan adnoddau arbenigol yn teithio i ardaloedd eraill ar hyn o bryd.

Gallai opsiynau amgen i sefydlu darpariaeth yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain gynnwys:

- ehangu darpariaeth debyg ar safleoedd ysgolion uwchradd eraill
- sefydlu darpariaeth arbenigol newydd ar safleoedd ysgolion eraill a/neu nifer wahanol o leoedd yn y canolfannau presennol neu arfaethedig.

Fodd bynnag, mae'r safonau yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn dda. Mae sefydlu'r ddarpariaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol yn cynnig nifer uwch o leoedd ysgol o ansawdd uchel priodol. Felly, ystyrir bod sefydlu'r ddarpariaeth yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn opsiwn a ffefrir.

## Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n deillio o sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol a'r angen dilynol am staffio ychwanegol.

Pan fo'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Ysgolion yr 21ain Ganrif darpariaeth ar gyfer Ysgol Uwchradd y Dwyrain

## Materion trafnidiaeth

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol o ddwy filltir i ddisgyblion fod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ganolfannau adnoddau arbenigol. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai dysgwyr sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol yn cael trafnidiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion unigol a materion cymdeithasol. Gall dysgwyr eraill deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os nad yn preswylio o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Cludiant i Ddysgwyr. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus.

Gan fod y Cyngor yn ceisio darparu dosbarthiad gwell o ddarpariaeth canolfannau adnoddau arbenigol ledled y ddinas, disgwylir y byddai'r pellter teithio cyfartalog i ganolfannau adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr unigol yn lleihau yn y dyfodol.

Efallai y bydd cynnig ysgol i sefydlu cyfleusterau angen dysgu ychwanegol yn gofyn am Ddatganiad Trafnidiaeth a fydd yn nodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau'r teithio mwyaf posibl drwy ddulliau cynaliadwy.

Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Bydd cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

Bydd cynyddu teithio i'r ysgol drwy ddulliau actif (cerdded, beicio a sgwtera) drwy sicrhau bod cyfleusterau diogel yn cael eu darparu yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles plant.

Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan anghenion dysgu ychwanegol, a fyddai'n cael ei chynnig ar gyfer dysgwyr canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beiciau a hyfforddiant beicio.

Gyda'r galw cynyddol disgwyliedig am Gludiant i Ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain, byddai'r safle'n cael ei asesu i sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer gollwng a chasglu i ddarparu ar gyfer y nifer priodol o gerbydau. Gall mesurau i wella problemau traffig y tu allan i'r ysgol gynnwys cyfyngiadau parcio ychwanegol neu ystyried Stryd Ysgol o amgylch amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol er mwyn lleihau tagfeydd a phroblemau parcio a gwella diogelwch disgyblion.

## Dweud eich dweud

Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor beth yw eich barn ar y cynnig. Gallwch roi ymateb i'r holl gwestiynau, neu ymateb i rai ohonynt yn unig, fel sydd orau gennych.

Fel arall, gallwch anfon eich barn atom drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- E-bostiwch eich barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr atom yn y cyfeiriad canlynol: Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r cynnig hwn yw 31 Ionawr 2022.


Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
Ysgolion yr 21ain Ganrif darpariaeth ar gyfer Ysgol Uwchradd y Dwyrain

# Gwybodaeth sy'n Berthnasol i'r ddau Gynnig

## Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Mae Canolfannau Adnoddau Arbennig yng Nghaerdydd yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd gyfan. Nid oes digon o leoedd i ateb y galw yn y ddarpariaeth a gynhelir. Mae hyn yn cael effaith ar ysgolion sy'n bodoli eisoes lle mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o ddisgyblion ar y gofrestr na'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) neu'r nifer a ddymunir mewn CAA.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Gaerdydd ddibynnu ar brynu rhai lleoedd mewn darpariaeth y tu allan i'r sir ac mewn ysgolion annibynnol i gyflawni ei dyletswyddau statudol. Gallai fod effaith tymor hwy ar ddarparwyr y tu allan i'r sir ac ar ysgolion annibynnol gan ei bod yn debygol y bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd a brynir gan y Cyngor.

## Trefniadau derbyn

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion yn sgil y cynigion hyn. Nid oes unrhyw gynlluniau i leihau nifer y lleoedd prif ffrwd o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Ceir gwybodaeth fanwl am drefniadau derbyn yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk.

Rheolir derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol gan y Cyngor, yn amodol ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). O dan y Cod ADY, bydd y lleoliad yn destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

Byddai'r capasiti arfaethedig ar gyfer 20 o leoedd adnoddau arbenigol ym mhob ysgol yn ychwanegol at gapasiti lleoedd prif ffrwd yn yr ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn.

## Trefniadau Teithio Dysgwyr

Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant yn ôl a blaen i ysgolion.

Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth gyda thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor **(www.caerdydd.gov.uk).**

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y'i mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Wrth benderfynu pa un yw'r ysgol addas agosaf, rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw anabledd sydd gan blentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA).





## Materion Ariannol

Byddai rhai o'r newidiadau arfaethedig a nodir yn y ddogfen hon yn arwain at gostau cyfalaf i'r Cyngor, ar gyfer cynnal gwaith ar adeiladu a / neu addasu adeiladau. Byddent hefyd yn arwain at gostau refeniw i'r Cyngor, wrth gyflogi staff.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau ariannol ar y cam hwn o'r ymgynghoriad. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Yna cynhelir gwerthusiad ariannol llawn. Bydd hyn yn sicrhau fforddiadwyedd ac yn cyfyngu ar y pwysau cyllidebol ar y Cyngor.

Byddai angen i'r lleoedd ychwanegol hyn gael eu hariannu o'r gyllideb ysgolion dirprwyedig bresennol. Ar hyn o bryd, cyflwynir darpariaeth cost uchel i rai disgyblion mewn nifer o ffyrdd. Mae rhai dysgwyr yn cael eu lleoli mewn ysgolion y tu allan i Gaerdydd, neu mewn ysgol annibynnol. Mae rhai dysgwyr yn aros mewn ysgolion prif ffrwd, gyda thaliadau "Gwella Anghenion Cymhleth" yn cael eu gwneud i'r ysgol i ddarparu cymorth priodol.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ganfod a fydd yr arbedion ar y lleoliadau hyn, neu ar daliadau chwyddo i ysgolion, yn talu costau ychwanegol y lleoedd ychwanegol arfaethedig.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried sut y byddai costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol y Cyngor yn newid. Gall y nifer gynyddol o leoedd arbenigol a gynigir gynyddu nifer y plant sy'n cael eu cludo rhwng y cartref a'r ysgol gan y Cyngor. Gall y nifer gynyddol o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion a chanolfannau arbennig leihau'r pellter teithio cyfartalog a'r gost teithio gyfartalog.

## Darpariaeth iechyd

Bydd gan y cynigion i ehangu'r ddarpariaeth arbenigol yn yr ysgolion a gynhwysir yn y cynigion hyn oblygiadau i iechyd a gwasanaethau arbenigol eraill. Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ffactor ychwanegol yw Deddf Diwygio ADY 2018, a fydd yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd i iechyd, addysg a gofal cymdeithasol gydweithio i gydlynu asesu a darpariaeth. Bydd Deddf 2018 yn cael ei gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2020.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'i gilydd, mae'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal adolygiad ar y cyd o ddarpariaeth iechyd ac arbenigol yn ysgolion arbennig Caerdydd ac mewn unedau cyfeirio disgyblion. Bydd canfyddiadau'r adolygiad, a oruchwylir gan grŵp prosiect o gynrychiolwyr o feysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a rhieni, yn llywio dyluniad y ddarpariaeth arbenigol.

## Trefniadau Llywodraethiant

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethiant yn deillio o'r cynnig hwn.

Ysgolion yr 21ain Ganrif
darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ady)


Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

# Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Mae lefel anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Gymraeg wedi bod yn is yn hanesyddol nag yn y sector Saesneg. Mae hyn wedi bod yn newid dros y 4-5 mlynedd diwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am fwy o achosion o ADY, ym mhob maes angen.

Cynhaliwyd adolygiad o ADY yn y sector Gymraeg gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016 i lywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Nododd ysgolion nifer fach ond arwyddocaol o enghreifftiau o ddisgyblion ag ADY yn gadael y sector Gymraeg er mwyn cael mynediad at ganolfannau adnoddau arbenigol neu ysgolion arbennig.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd i awgrymu bod rhai teuluoedd a fyddai fel arall yn dewis addysg Gymraeg yn dewis addysg cyfrwng Saesneg yn lle hynny os oedd ADY gan eu plentyn, oherwydd pryder y gallai fod angen i'w plentyn drosglwyddo i'r sector arbenigol yn ddiweddarach.

Drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys rhywfaint o allu i ymateb i'r galw cynyddol a meithrin mwy o hyder yn y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn y sector.

Sefydlwyd canolfan gynradd newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, lle mae'r ganolfan uwchradd wedi ei sefydlu.  Mae'r ddwy ganolfan yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, gan ddarparu cwricwlwm arbenigol a chefnogi ystod o anghenion eilaidd gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol, anawsterau lleferydd ac iaith ac awtistiaeth.

Yn 2021 mae galw cynyddol am ganolfannau adnoddau ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, sy'n gyflawnwyr uchel ar gyfartaledd, a byddai angen model cymorth mwy integreiddiol na'r hyn a ddarperir gan y ddwy ganolfan bresennol.  Ar hyn o bryd mae 8 dysgwr oedran uwchradd, a 15 dysgwr oed cynradd a fyddai'n elwa o leoliad mewn canolfan Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.  Mae hon yn flaenoriaeth byrdymor, o ystyried y risg, os bydd y lleoliadau presennol yn methu, mai'r unig opsiwn fyddai cynnig trosglwyddiad i leoliad cyfrwng Saesneg.

Mae dosbarth llesiant cynradd wedi'i sefydlu, a gynhelir yn Ysgol Gynradd Pen y Groes. Mae'r dosbarth llesiant yn gweithio'n hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion mewn gwahanol gyfnodau oedran, neu i ddarparu model allgymorth, gan ddibynnu ar yr angen presennol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymgynghori ar sefydlu canolfan Adnoddau Arbennig Awtistiaeth 30 lle yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ogystal â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle presennol yn yr ysgol.

Er mwyn cefnogi anghenion iechyd emosiynol a llesiant yn y cyfnod uwchradd, mae canolfan /UCD 'rithwir' wedi'i threialu ar draws y tair ysgol uwchradd Gymraeg, gan ddechrau yn 2018. Disgwylir i'r peilot gael ei adolygu ymhellach yn 2021.

Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y tair ysgol gyfleusterau a llety digonol i gynnig darpariaeth Cam 3 a 4 effeithiol, wedi'i hategu gan y ganolfan/UCD rithwir. Yn y tymor canolig, bydd angen lleoliad sefydlog ar y ganolfan / UCD rithwir yn un o'r ysgolion, gyda llety dynodedig, er mwyn lleihau'r risg y gallai fod angen i bobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth adael y sector Cymraeg i gael mynediad at ddarpariaeth fwy arbenigol.

Wrth i'r sector Cymraeg barhau i dyfu bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol gan ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr ag ADY cymhleth.

Mae'r nifer o staff addysgu cymwys a phrofiadol ADY, yn gyfyngedig o'i gymharu â'r sector Saesneg. Bydd angen i unrhyw gynllun i ddatblygu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg gael ei gefnogi gan Gynllun Datblygu'r Gweithlu ADY.

Yn unol â'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid ar Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd i ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd newydd ar gyfer y ddinas. Disgwylir y bydd y cynllun ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn hydref 2021 cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2022. Bydd y Cynllun 10 mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032.

Bydd ymgynghoriad ar y Cynllun Drafft yn ceisio barn ar y ffordd orau o dyfu addysg Gymraeg a sut i gyrraedd y targedau lleol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn llywio cynigion yn y dyfodol. Bydd y Rhaglen yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

# Cydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud.  Daeth i'r casgliad na fyddai'r newidiadau a gynigir yn effeithio'n negyddol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas.

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen.

# Effaith Gymunedol

Ystyrir y canlynol wrth ystyried cynnig:  Man Agored Cyhoeddus, parcdir, sŵn a thagfeydd.   Bydd yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion hyn a'r Cyngor yn gweithio gydag unrhyw grwpiau cymunedol i sicrhau bod y cynigion yn osgoi unrhyw effeithiau negyddol os yn bosibl.

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer y cynigion hyn ac mae ar gael i'w weld yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY .


Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

Ysgolion yr 21ain Ganrif
darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ady)

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu Ysgolion Lleol i Blant Lleol, i annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafnidiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.

Yng ngoleuni'r pandemig a chyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ledled y ddinas, gellir lleihau symudiadau myfyrwyr ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

## Amhariad Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu ac addasiadau yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion sydd wedi'u meddiannu o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr ac sy'n tyfu.

Byddai unrhyw waith adeiladu neu addasu a wneir ar gyfleusterau sy'n bod yn barod yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgol i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg a safonau diogelwch uchel yn cael eu cynnal.

## Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

### Beth sy'n digwydd nesaf?

### Dyddiadau allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Bydd swyddogion y Cyngor wedyn yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor i roi gwybod i aelodau etholedig am farn rhanddeiliaid, ac i fwydo'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Nodir y camau hyn yn Nhabl 15 isod:

**Tabl 15: Camau yn y dyfodol (Mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn newid).**

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Y Cyfnod Ymgynghori | 13 Rhagfyr 2021 – 31 Ionawr 2022 |
| Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor | Mawrth 2022 |
| Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu wedi cyflwyno'r hysbysiad statudol (ar ôl gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol) | Mai 2022 |
| Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben | Mehefin 2022 |
| (Pennu) Y penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor | Gorffennaf 2022 |
| Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet | Gorffennaf 2022 |

### Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 13 Rhagfyr 2021 ac yn dod i ben ar 31 Ionawr 2022

Gweler tudalen 41 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

Gallwch ofyn hefyd am gopi caled o'r adroddiad.

Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigir ai peidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

## Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor roi'r gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad statudol hwn ar ei wefan. Byddai hefyd yn rhoi copïau o'r hysbysiad yn neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt. Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

## Penderfynu ar y cynigion

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

## Hysbysu'r Penderfyniad

Wedi penderfynu, byddai Cyngor Caerdydd yn rhoi gwybod i bawb y byddai'r cynnig yn effeithio arno beth oedd y penderfyniad hwnnw. Caiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.





# Dweud Eich Dweud!

**FFURFLEN YMATEB I YMGYNGHORIAD**

**Gallwch gwblhau'r ffurflen ymateb hwn ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY**

Er mwyn ateb y galw am leoedd arbenigol ar gyfer adnoddau ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant rhwng 11 a 19 oed, rydym yn cynnig:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2022

Mae eich barn o bwys. Rhannwch eich barn am y cynigion gyda ni drwy:

- Lenwi a dychwelyd yr holiadur cysylltiedig i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen.
- Llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY
- Os yw'n well gennych, gallwch e-bostio eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 31 Ionawr 2022.**
**Yn anffodus ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

### 1. Fel pa un o'r canlynol rydych yn ymateb?

☐ Rhiant
☐ Athro – nodwch eich ysgol ____________________
☐ Llywodraethwr ysgol – nodwch eich ysgol ____________________
☐ Arall - rhowch fanylion ____________________

### 2. A oes gennych chi blentyn/plant wedi eu cofrestru yn yr ysgolion canlynol?

**(ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

☐ Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
☐ Ysgol Uwchradd y Dwyrain
☐ Arall - rhowch fanylion: ____________________
☐ Dd/B

### 3. A ydych yn cefnogi'r cynlluniau a gyflwynwyd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

## 4. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer pob un o safleoedd yr ysgol?

| Ysgol a chynnig | Ydw | Nac Ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd**<br><br>• Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd o fis Medi 2022 | | | |
| **Ysgol Uwchradd y Dwyrain**<br><br>• Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain o fis Medi 2025 | | | |

## 5. Eglurwch pam eich bod yn cefnogi neu beidio cefnogi'r cynnig(ion) isod.

**Cyfeiriwch at yr ysgol dan sylw**

## 6. A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen?





## 7. Sylwadau ychwanegol

Enw: ____________________

Cyfeiriad: ____________________

Cod Post: ____________________

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 31 Ionawr 2022.**

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a geir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol.

Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

____________________

**Thank you for your comments**

Dychwelwch y ffurflen hon at Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW neu drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk erbyn dim hwyrach na 31 Ionawr 2022.






Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY

## AMDANOCH CHI

Nodwch eich cod post isod i'n galluogi i nodi barn ac anghenion ymatebwyr yn fanylach fesul ardal:-

[ ]

**Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?**

- [ ] Dan 16 oed
- [ ] 16-24
- [ ] 25-34
- [ ] 35-44
- [ ] 45-54
- [ ] 55-64
- [ ] 65-74
- [ ] 75+
- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud

**Ydych chi yn….. ?**

- [ ] Benyw
- [ ] Gwryw
- [ ] Arall
- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud

**Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn berson anabl?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud

**Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:**

- [ ] Byddar / Wedi colli clyw / Yn drwm fy nghlyw
- [ ] Nam ar y golwg
- [ ] Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)
- [ ] Anawsterau iechyd meddwl
- [ ] Nam/anawsterau dysgu
- [ ] Defnyddiwr cadair olwyn
- [ ] Nam symudedd
- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud
- [ ] Arall

Rhowch fanylion ___________________________________________

**Beth yw eich grŵp ethnig?**

Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at y pedair gwlad, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.

- [ ] Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig
- [ ] Gwyn - Gwyddelig
- [ ] Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- [ ] Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall
- [ ] Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd
- [ ] Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribïaidd
- [ ] Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd
- [ ] Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Unrhyw un arall
- [ ] Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd
- [ ] Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Pacistanaidd
- [ ] Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Bangladeshaidd
- [ ] Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd
- [ ] Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall
- [ ] Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Affricanaidd
- [ ] Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Caribïaidd
- [ ] Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Unrhyw gefndir arall
- [ ] Arabaidd
- [ ] Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) ___________________________
- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Diben prosesu data personol yw oherwydd bod angen perfformio tasg benodol sydd o fudd i'r cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, byddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion personol fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael eu tynnu allan.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx